Sylwer: O dan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall y cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Penaethiaid Coleg, Swyddogion Coleg neu Bwyllgorau Coleg yn y drefn honno, fel bo lnoei5 (o2)-fed5 ( )-feb. B wD y ddi5 (lad

## Rhagarweiniad

1. Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud ag unigolion sydd ar hyn o bryd (neu a oedd yn

ii. Trosedd, gan gynnwys unrhyw rybudd neu gerydd, neu ymchwiliad sydd ar y gweill gan yr heddlu neu gorff proffesiynol, rheoleiddio neu statudol perthnasol;
iii. Methiant i roi gwybod i'r brifysgol am drosedd gan gynnwys rhybudd neu gerydd;
iv. Cam-drin neu ddychryn cyd-fyfyrwyr, cleifion, cleientiaid, cydweithwyr, aelodau staff neu aelodau o'r cyhoedd yn gorfforol neu'n eiriol;
v. Methiant i wella ymddygiad sydd wedi bod yn destun gweithredu dan reoliadau'r brifysgol.
vi. Ymddygiad amhroffesiynol dro ar ôl tro;
vii. Ffugio dogfennau, cofnodion clinigol, personol neu academaidd, data neu ddeunydd ymchwil;
viii. Cyhoeddi, yn cynnwys trwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ddeunydd amhriodol, yn cynnwys datganiadau a delweddau;
ix. Amheuaeth o broblem yn ymwneud ag alcohol/cyffuriau;
x. Bod wedi eich gwahardd rhag gweithio gyda grŵp penodol o bobl (gweler paragraff 8);
xi. Bod yn destun ymchwiliad dan reoliad, cod neu weithdrefn arall o eiddo'r brifysgol, megis y Weithdrefn Uniondeb Academaidd, y Rheoliad Disgyblu Myfyrwyr neu'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr;
xii. Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sydd, er gwaethaf addasiadau neu driniaeth resymol, yn effeithio ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer;
xiii. Torri cyfrinachedd;
xiv. Dwyn anfri ar y brifysgol neu'r proffesiwn.

Y baich prawf i'w ddefnyddio o ran y Weithdrefn hon yw bod y brifysgol yn fodlon bod y digwyddiad yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi digwydd, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd.

proffesiynol, statudol neu reoleiddiol megis Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP), Byrddau Iechyd Partneriaethol, GIG Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC);

-

-

11. Ni fydd y weithdrefn fel rheol yn cael ei defnydd io dan yr amgylchiadau canlynol er y gall fod rhesymau pam y gall y Weithdrefn hon redeg ochr yn ochr â'r prosesau a amlinellir isod mewn rhai amgylchiadau y dylid eu gwneud yn glir i'r myfyriwr:

- Pan godir pryderon ynghylch addasrwydd yn ystod y broses ymgeisio, cyn i fyfyriwr gofrestru ar y rhaglen. Mewn achosion o'r fath dylid defnyddio trefniadau derbyn y brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y Polisi a'r Cod Ymarfer ar gyfer Recriwtio a Derbyn (Polisi Derbyniadau), polisïau perthnasol yn ymwneud ag euogfarnau troseddol, a'r holl weithdrefnau a bennir ar gyfer rhaglenni unigol.
- Pan fo myfyriwr yn cyflawni arfer annheg dan amgylchiadau arholiad neu dan amgylchiadau heb fod yn rhai arholiad. Mewn achosion o'r fath, dylid defnyddio'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
- Lle bo pryderon ynghylch cynnydd academaidd myfyriwr. Mewn achosion o'r fath, tiwtor personol y myfyriwr hwnnw a ddylai ddelio â'r pryderon hynny, a'r Bwrdd Arholi, lle bo'n briodol.
- Lle mae myfyriwr yn achosi pryder sylweddol ar sail iechyd, a/neu y ffaith ei fod mewn perygl o niweidio ei hunan neu eraill. Yn y cyfryw achosion dylid defnyddio'r Drefn Addasrwydd i Astudio.
- Lle nad yw myfyriwr yn gallu dilyn ei (h)astudiaethau am resymau personol nad ydyn ( )1 1.5 0 Td [[mewosadyn A3y, a'chydltid iew a'wieii cyfr(l)1 11.1 (n (d)5)1 ( )1 (i) (

yr achos hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch ei addasrwydd i ymarfer, ond mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen tynnu'r myfyriwr dros dro o leoliad tra disgwylir am ganlyniad yr ymchwiliad.

14. Y disgwyliad yw bod achosion o bryder am addasrwydd / ffitrwydd myfyriwr i ymarfer yn cael sylw yn y lle cyntaf, mor fuan â phosibl, trwy ba broses fewnol bynnag sy'n berthnasol i'r Ysgol. Gall y Tiwtor Personol, yr Uwch Diwtor, yr Arweinydd Lleoliad, neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb penodedig, roi sylw i addasrwydd / ffitrwydd y myfyriwr i ymarfer. Gall hyn ddigwydd mewn lleoliad anffurfiol, megis yn ystod neu ar ôl dosbarthiadau, yn ystod cyfarfodyd d bugeiliol neu ddatblygu, yn ystod cyfarfodydd heb eu trefnu neu drafodaethau ac ati, ond rhaid ei gofnodi ar gofnod y myfyriwr.

Cam Un: Ystyriaeth ar lefel Coleg / Ysgol

15. Os bydd mater yn codi na ellir rhoi sylw iddo gyda'r myfyriwr fel rhan o'r broses barhaus o reoli problemau sy'n berthnasol i'r rhaglen, yna disgwylir y bydd y rhai sydd â'r cyfrifoldeb penodedig yn trefnu cyfarfodydd priodol i drafod y pryderon. Dylai'r cyfarfodydd hyn fel rheol gynnwys Arweinydd y Rhaglen a chynrychiolydd o'r bartneriaeth berthnasol, gallant hefyd gynnwys y Pennaeth Ysgol / Deon Coleg perthnasol. Rhaid i gofnod o unrhyw gyfarfodydd gael ei gadw ar ffeil y myfyriwr yn y brifysgol.

16. Cyn y cyfarfod gall Arweinydd y Rhaglen neu'r Pennaeth Ysgol, neu rywun a enwebir ganddynt, ymchwilio i'r pryderon mewn unrhyw ffordd sy'n briodol yn eu barn hwy er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol, a ddylai gynnwys trafodaethau gyda'r partner allanol perthnasol.

17.

18. Yn dilyn y drafodaeth gyda'r myfyriwr, bydd Arweinydd y Rhaglen / Pennaeth yr Ysgol, neu enwebai, mewn ymgynghoriad â'r partner(iaid) allanol yn penderfynu fel a ganlyn:

a) Ystyrir nad oes angen camau pellach ar hyn o bryd. NEU
b) Bennu nifer o gamau i ddatrys y sefyllfa(oedd), a all gynnwys parhad y lleoliad neu drefnu lleoliad arall lle bo angen. Gall y lleoliad gynnwys monitro ffurfiol. NEU
c) Dylid cynnig cyfle i'r myfyriwr newid rhaglenni i un heb leoliad os oes cyfle felly i'w gael. NEU
d) Ni ellir datrys y sefyllfa a/neu mae digon o bryder i gyfeirio'r mater i Gam Dau y Weithdrefn hon, a fydd yn cynnwys ystyriaeth gan Banel Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer. NEU
e) Dylid gohirio er mwyn ymchwilio'n ymhellach i'r mater. Ni ddylai'r gohiriad fod am fwy na 10 diwrnod gwaith, lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

Penderfynir a chytunir ar drefniadau i gyflawni'r canlyniad a nodir yn Adran 18 ar ddiwedd y cyfarfod ac fe'u cofnodir mewn adroddiad y dylid ei roi yng nghofnod y myfyriwr. Rhaid rhoi copi i'r myfyriwr hefyd. Yn achos 18(b) uchod, dylai'r adroddiad gynnwys manylion pe n

academaidd yr

g) Gall cynrychiolydd y myfyriwr ymateb ar ran y myfyriwr ar wahoddiad y myfyriwr.
h) Gall y myfyriwr a Chyflwynydd yr Achos ofyn cwestiynau i'w gilydd.
i) Gofynnir i’r tystion ymateb i’r cwestiynau a ofynnir iddynt gan y Panel.
j) Bydd y myfyriwr, ei gynrychiolydd, Cyflwynydd yr Achos ac unrhyw dystion yn gadael yr ystafell.
k) Bydd y Panel yn ystyried y canfyddiadau.
l) Bydd y Panel yn ceisio sicrhau bod Cyflwynydd yr Achos, y myfyriwr, a'r cynrychiolydd yn bresennol i wrando ar ganfyddiadau'r Panel.

Rhaid i unrhyw gwestiynau a ofynnir i’r myfyriwr gan Gyflwynydd yr Achos neu unrhyw gwestiynau a ofynnir i Gyflwynydd yr Achos neu dystion gan y myfyriwr, gael eu gofyn drwy’r cadeirydd.

35. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir gohirio cyfarfod y Panel am ddim mwy na 10 diwrnod gwaith er mwyn i dystiolaeth ychwanegol, fel y diffinnir hynny gan y Panel, gael ei darparu.

36. Rhaid i'r Panel ddewis un o'r canlyniadau canlynol, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol:

a) Parhau ag astudiaethau a / neu lleoliad yn ddiamod.
b) Parhau ag astudiaethau a / neu lleoliad gydag amodau. Gall hyn gynnwys amodau proffesiynol neu academaidd ychwanegol, er enghraifft, lleoliad arall, goruchwyliaeth arbennig neu raglen weithredu a argymhellir lle bo'n briodol. Gall hyn hefyd gynnwys darparu cefnogaeth fugeiliol neu les ychwanegol.
c) Gohirio’r rhaglen a / neu’r lleoliad hyd nes bydd y myfyriwr yn gallu parhau heb bryderon ynghylch ei Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer. Mae'r Panel yn cadw'r hawl i bennu sut y bydd angen tystiolaeth o Addasrwydd / Ffitrwydd o'r fath.
d) Terfynu astudiaethau a lleoliad ar y rhaglen y mae'r myfyriwr wedi cofrestru arni, gydag opsiwn i gynnig rhaglen arall wedi'i seilio ar theori heb elfen ymarfer os oes un ar gael.
e) Terfynu astudiaethau a lleoliad ar y rhaglen y mae'r myfyriwr wedi cofrestru arni ac argymell i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (neu ei enwebai) na ddylai'r myfyriwr fod yn gymwys i gofrestru ar unrhyw gwrs arall yn y brifysgol am gyfnod penodedig neu amhenodol. Bydd y ffaith hon yn cael ei chynnwys mewn unrhyw eirda neu drawsgrifiad a ddarperir gan Brifysgol Bangor i sefydliadau eraill.

Os dewisir canlyniad 36(b) neu 36(c), rhaid i adroddiad y Panel gynnwys manylion penodol o’r trefniadau y cytunir arnynt i fonitro ac adolygu cynnydd. Pennir amserlen ar gyfer y trefniadau monitro. Dylid monitro’n rheolaidd yn unol â’r trefniadau hynny a dylid ei gofnodi.

37. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (neu enwebai) yn cadarnhau gyda'r myfyriwr, Pennaeth yr Ysgol, darparwr y lleoliad, y corff proffesiynol, ac Arweinydd y Rhaglen, beth yw penderfyniad y Panel, ac unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r penderfyniad, yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith i gyfarfod y Panel, pan fo hynny'n ymarferol bosibl. Rhoddir manylion y weithdrefn apelio i'r myfyriwr.

Y Weithdrefn Apelio

38. Rhaid i apeliadau gan y myfyriwr yn erbyn penderfyniad Panel gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio o fewn 10 diwrnod gwaith, pan fo hynny'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad yr hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig o benderfyniad y Panel.

Diffygnellu afreole-2 (i)1 (d)15 (d)]T9 Tw 0 Tw 10.55 0 Td (-)Tj 0.002 T

39. Ystyrir apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Addasrwydd i Ymarfer ... benderfyn(a)-2.1 (n )0(r)2 (w)(y)9 (f)(a)... seiliau canlynol yn unig:

- Diffygion neu afreoleidd-dra yn y ffordd y cynhaliwyd y Panel, lle gallar 6onw 10.9 53n-1.4 Tf 0l

•